


Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 1 (Ionawr - Mawrth 2020) i Gymru



Uchafbwyntiau

23 Mehefin 20

Ffigur 1: Cyfanswm y Tystysgrifau



Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu



Dyfarnwyd **45,155** o dystysgrifau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Mae hwn yn **10.7%** o ostyngiad o'i gymharu â'r un chwarter yn 2019, pan gafwyd **50,550** o dystysgrifau.

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 roedd **373,760** o dystysgrifau, sef **9.1%** o ostyngiad o'i gymharu â **411,075** rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.



Gair am y datganiad hwn

Yn y datganiad ystadegol hwn cyflwynir gwybodaeth am Gymru a gasglwyd gan Cymwysterau Cymru oddi wrth gyrff dyfarnu. Mae'n cynnwys data am amrywiaeth a nifer y tystysgrifau galwedigaethol a chymwysterau eraill a gyhoeddwyd yn ystod mis Ionawr i fis Mawrth 2020 (chwarter 1). Casglwyd data Cymru cyn chwarter 1 2019 gan Ofqual.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Ystadegau.....	4
Rhestr Termau.....	11
Nodiadau	
Cefndir.....	15

Ystadegydd: Hannah Williams 01633 373 292 ystadegaucymwysteraucymru.org



YouTube

Ymholiadau gan y cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015¹, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i fodloni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru ac i hybu ffydd y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Yn y datganiad hwn, cyflwynwn ddata am amrywiaeth y tystysgrifau a chymwysterau galwedigaethol ac eraill a gyhoeddwyd yn ystod chwarter cyntaf 2020. Cynrychiola'r ffigurau nifer y tystysgrifau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a ddyfarnwyd gan gyrff dyfarnu rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2020. Nid yw'r ystadegau hyn yn cynrychioli dysgwyr unigol, oherwydd gallai dysgwr fod wedi cyflawni nifer o dystysgrifau mewn unrhyw gyfnod amser a gyflwynir yn y datganiad hwn.

Mae'r data yn y datganiad hwn ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill a restrir ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)² neu ar ein rhestr fewnol o gymwysterau eraill a reoleiddir. Nid yw'r data hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Uwch Estynedig, Prif Ddysgu a Phrosiect.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data fesul chwarter, gan ddefnyddio chwarterau'r flwyddyn galendr. Mae Ch1 yn cynrychioli 1 Ionawr i 31 Mawrth; mae Ch2 yn cynrychioli 1 Ebrill i 30 Mehefin; mae Ch3 yn cynrychioli 1 Gorffennaf i 30 Medi; a Ch4 yn cynrychioli 1 Hydref i 31 Rhagfyr.

O Ch4 2017, rydym wedi llunio adroddiadau am dystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill i Gymru, a gasglwyd yn wreiddiol oddi wrth gyrff dyfarnu gan Ofqual ar ein rhan. O Ch1 2019 ymlaen, mae Cymwysterau Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau swyddogol ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gennym. Cyn Ch4 2017, byddai data i Gymru yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi gan Ofqual³. Rydym wedi ceisio cymaint â phosibl cadw'r ystadegau hyn yn gyson â'r ystadegau cynharach hynny; ni wnaethpwyd newidiadau heblaw lle'r oedd yn amlwg y byddai gwneud hynny'n arwain at adrodd am ddata tystysgrifau cywirach, neu lle'r oedd angen y newidiadau oherwydd gwahaniaethau yn ein dull rheoleiddio. Ceir rhagor o fanylion yn adran [Methodoleg](#) y nodiadau cefndir.

¹http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/pdfs/anaw_20150005_en.pdf

² Cofrestr o gymwysterau a reoleiddir sy'n gymwys am gyllid cyhoeddus yng Nghymru yw QiW. <https://www.qiw.wales/> [Cyrchwyd 13 Mai 2020].

³ Ofqual (2017) *Changes to the publication of geographical breakdowns of data*. [online]. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/changes-to-the-publication-of-geographical-breakdowns-of-data> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

COVID-19

Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg Kirsty Williams, oherwydd pandemig COVID-19, y byddai pob ysgol yng Nghymru yn cau erbyn 20 Mawrth 2020⁴. Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog Mark Drakeford gyfyngiadau pellach i arafu lledaeniad coronafeirws yng Nghymru⁵. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, ni fu llawer o golegau, canolfannau asesu a darparwyr hyfforddiant yn gallu gweithredu ers diwedd mis Mawrth, a bydd hynny'n debygol o effeithio ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill. Am fod yr ysgolion wedi cau a chyfyngiadau eraill wedi'u cyflwyno yn ystod wythnosau olaf Ch1 2020, disgwyliwn mai bychan iawn y bydd effaith COVID-19 ar yr ystadegau ar gyfer y chwarter hwn. Fodd bynnag, rhagwelwn y byddwn yn gweld effaith fwy sylweddol ar yr ystadegau hyn yn chwarterau'r dyfodol.

Rhagwelwyd hefyd y gallai cyfyngiadau coronafeirws ledled y DU effeithio ar gyflawnrwydd y data ar gyfer y datganiad hwn, oherwydd yr heriau gweithredol a oedd yn wynebu'r cyrff dyfarnu. Fodd bynnag, roedd pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn gallu cyflwyno data dilys ar gyfer y chwarter hwn ac nid oes gennym reswm o gwbl dros gredu bod coronafeirws wedi effeithio ar gywirdeb neu gyflawnrwydd y data.

⁴ <https://llyw.cymru/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru>

⁵ <https://llyw.cymru/datganiad-prif-weinidog-cymru-ar-fesurau-coronafeirws-newydd>

YSTADEGAU

CYFANSWM Y TYSTYSGRIFAU A THUDDIADAU HANESYDDOL

Tabl 1: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl chwarter ac yn ôl blwyddyn

Cyfnod amser	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
		Ion-Maw	Ebr-Meh	Gorff-Med	Hyd-Rhag
Chwarterol	2015	94,070	164,620	295,930	59,650
	2016	86,085	115,010	251,035	59,055
	2017	54,425	82,710	226,505	57,595
	2018	53,765	85,415	216,310	58,795
	2019	50,550	61,610	215,120	51,875
	2020	45,155	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Cyfanswm treigl 12 mis	2015	603,900	586,150	623,285	614,265
	2016	606,285	556,675	511,780	511,190
	2017	479,525	447,225	422,695	421,235
	2018	420,575	423,285	413,090	414,290
	2019	411,075	387,265	386,075	379,155
	2020	373,760	Dd/B	Dd/B	Dd/B

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Cymhariaeth Chwarterol

Dyfarnwyd 45,155 o dystysgrifau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Mae hwn yn 10.7% o ostyngiad o'i gymharu â'r un chwarter yn 2019, pan oedd 50,550 o dystysgrifau. Mae hyn yn unol â thuedd ostyngol barhaus a welwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf: roedd nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch1 2020 yn llai na hanner y nifer a ddyfarnwyd yn yr un chwarter yn 2015. Ceir manylion y ffactorau allanol sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at y duedd hon am i lawr yn [nodiadau cefndir](#) y datganiad hwn.

Cymhariaeth Flynyddol

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 roedd 373,760 o dystysgrifau, sef 9.1% o ostyngiad o 411,075 rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

TYSTYSGRIFAU YN OL MAES PWNC SECTOR (MPS)

Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl maes pwnc sector

Maes Pwnc Sector	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
	2019 Ch1	2020 Ch1	Ebrill 2018 i Mawrth 2019	Ebrill 2019 i Mawrth 2020
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	13,360	11,900	68,815	58,710
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	40	80	6,215	5,555
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaic	345	1,040	6,025	4,650
04 Technolegau Peirianeg a Gweithgynhyrchu	3,100	3,310	21,445	20,425
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiedig	3,500	3,080	19,605	22,115
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	525	550	7,645	5,965
07 Manwerthu a Mentrau Masnachol	5,080	4,430	27,710	26,370
08 Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	2,945	1,755	16,530	14,115
09 Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi	2,595	3,505	27,830	27,010
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	*	0	135	70
11 Gwyddorau Cymdeithasol	*	0	390	1,005
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	715	775	10,245	5,790
13 Addysg a Hyfforddiant	905	765	4,405	3,810
14 Paratoi at Fywyd a Gwaith	13,720	10,585	170,750	155,990
15 Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	3,725	3,375	23,320	22,175
Cyfanswm	50,550	45,155	411,075	373,760


Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrrff dyfarnu

Y prif sectorau yn Ch1 2020 oedd 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' a 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith', a'r rheini yn y drefn honno yn cyfrif am 26.4% a 23.4% o'r holl dystysgrifau. Y sector 'Adwerthu a Menter Fasnachol' oedd y trydydd MPS â'r mwyaf o dystysgrifau yn Ch1 2020.

'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' oedd y MPS a gafodd y mwyaf o dystysgrifau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Er gwaethaf 8.6% o ostyngiad blynyddol yn nifer y tystysgrifau, roedd y sector hwn yn cyfrif am gyfran debyg o'r holl dystysgrifau (41.7%) o gymharu â mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019 (41.5%). Y sector 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' oedd yr ail fwyaf yn ystod y cyfnod mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020, er gwaethaf 14.7% o ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

'Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig' a 'Gwyddorau Cymdeithasol' oedd yr unig sectorau lle cafwyd cynnydd blynyddol yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd.

Ffigur 2: Newid canran mewn tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl maes pwnc sector (MPS), Ch1 2020 o'i gymharu â Ch1 2019



(*) Ataliwyd y MPS â llai na 100 o dystysgrifau mewn chwarter.

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Dengys Ffigur 2 mai sector 'Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid' a welodd y cynnydd chwarterol mwyaf yn nifer y tystysgrifau, gyda 202.9% o gynnydd yn Ch1 2020 o gymharu â Ch1 2019. Sbardunwyd y cynnydd hwn gan mwyaf gan dystysgrifau ar gyfer nifer o gymwysterau Lefel 2 a ddyfarnir gan City & Guilds. Hefyd cafodd 'y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi' 35.2% o gynnydd amlwg, a gwelwyd cynnydd llai o faint yn y sectorau 'Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant', 'Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu' a 'Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'.

Yn y sector 'Hamdden, Teithio a Thwristiaeth' y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn Ch1 2020 (40.4%). Er mai hwy oedd y tri MPS â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn Ch1 2020, yn y sectorau 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal', 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' ac 'Adwerthu a Menter Fasnachol' gwelwyd gostyngiad yn y tystysgrifau o gymharu â Ch1 2019.

TYSTYSGRIFAU YN ÔL LEFEL

Tabl 3: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl lefel

Lefel	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
	2019 Ch1	2020 Ch1	Ebrill 2018 i Mawrth 2019	Ebrill 2019 i Mawrth 2020
Lefel Mynediad	5,250	3,845	34,190	29,260
Lefel 1	8,300	6,690	57,560	50,325
Lefel 1/2	25	115	63,830	63,590
Lefel 2	21,095	19,740	137,405	121,545
Lefel 3	14,100	12,850	108,195	99,320
Lefel 4	870	1,040	4,675	4,475
Lefel 5	715	755	4,065	3,960
Lefel 6	90	80	860	795
Lefel 7	105	50	300	495
Lefel 8	0	0	*	0
Cyfanswm	50,550	45,155	411,075	373,760

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Dengys Tabl 3 nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar bob lefel yn ystod Ch1 2020, o gymharu â'r un chwarter yn 2019, yn ogystal â'r tystysgrifau blynyddol ar gyfer y cyfnod mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020, o gymharu â'r 12 mis blaenorol. Lefelau 2 a 3 oedd y lefelau â'r mwyaf o dystysgrifau yn Ch1 2020, yn cyfrif am 72.2% o'r holl dystysgrifau ar gyfer y chwarter, o gymharu â 69.6% yn Ch1 2019. Roedd yr un lefelau'n cyfrif am 59.1% o'r cyfanswm blynyddol.

Gwelodd y rhan fwyaf o lefelau ostyngiad yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch1 2020 o gymharu â Ch1 2019. Yn Lefel 1, Lefel 2, Lefel 3 a Lefel Mynediad gwelwyd gostyngiad tebyg yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd. Yn y cymwysterau Lefel 7 a Lefel Mynediad y gwelwyd y gostyngiad cyfraneddol mwyaf, sef 51.9% a 26.8% yn y drefn honno. Mae'r gostyngiad cyfraneddol mawr ar Lefel 8 yn cynrychioli gostyngiad termau real o 55 tystysgrif, ac ar lefel flynyddol, mae tystysgrifau yn y cymwysterau hyn wedi cynyddu 66.4%.

Ym mhob lefel heblaw Lefel 7 cafwyd gostyngiad yn y tystysgrifau blynyddol, ond prif sbardunau'r 9.1% o ostyngiad cyffredinol yw cymwysterau Lefel 2, Lefel 3 a Lefel 1.

Y CYRFF DYFARNU BRIG O RAN NIFER TYSTYSGRIFAU

Tabl 4: Y 10 corff dyfarnu brig yn ôl nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020

Corff dyfarnu	Ebrill 2018 i Mawrth 2019	Ebrill 2019 i Mawrth 2020	Safle Ebrill 2018 i Mawrth 2019	Safle Ebrill 2019 i Mawrth 2020	Newid Safle
WJEC-CBAC	91,620	90,385	1	1	➔ +0
City and Guilds of London Institute	85,675	78,835	2	2	➔ +0
Pearson Education Ltd	53,410	37,120	3	3	➔ +0
Highfield Qualifications	32,655	31,615	4	4	➔ +0
Agored Cymru	18,945	18,545	5	5	➔ +0
Qualsafe Awards	13,085	14,355	6	6	➔ +0
Associated Board of the Royal Schools of Mus	10,145	10,575	8	7	⬆ +1
Trinity College London	8,775	8,860	9	8	⬆ +1
Excellence, Achievement & Learning Limited	8,475	7,020	10	9	⬆ +1
NCFE	5,155	6,390	11	10	⬆ +1

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Dengys Tabl 4 y deng corff dyfarnu brig yn ôl tystysgrifau dros y cyfnod mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020, o gymharu â'r 12 mis blaenorol. Roedd y deng corff dyfarnu hyn yn cyfrif am 81.3% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod hwn. Cadwodd CBAC-WJEC safle'r corff dyfarnu â'r mwyaf o dystysgrifau yn y 12 mis diwethaf, gan ddyfarnu dros 90,000 o dystysgrifau. City and Guilds of London Institute a arhosodd yn yr ail safle ond cyhoeddodd 8.0% yn llai o dystysgrifau o gymharu â'r 12 mis blaenorol.

Mae Pearson Education Ltd yn aros yn y trydydd safle ond mae wedi gweld gostyngiad cyfraneddol mawr sef 30.5% yn nifer y tystysgrifau blynyddol a gyhoeddwyd. Sbardunwyd y newid hwn yn bennaf gan ostyngiadau yn y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer cymwysterau Lefel 2, yn enwedig y rheini yn y sector 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith', a chymwysterau Lefel 3, yn enwedig yn y sectorau 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' a'r 'Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi'.

Gadawodd OCR y 10 brig o ganlyniad i 59.5% o ostyngiad blynyddol mewn tystysgrifau. Sbardunwyd hyn yn bennaf gan ostyngiad yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 yn y sector 'Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant'. Mae NCFE yn newydd-ddyfodiad i'r 10 corff dyfarnu brig sy'n rhoi tystysgrifau, yn dilyn cynnydd o 1,235 o dystysgrifau, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u dyfarnu ar Lefel 2.

Y CYMWYSTERAU BRIG O RAN NIFER TYSTYSGRIFAU

Tabl 5: Y 10 cymhwyster brig â'r nifer uchaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn y chwarter hwn

Cymhwyster	2019 Ch1	2020 Ch1
Highfield Dyfarniad Lefel 3 Cymorth Cyntaf ar frys yn y Gwaithle (RQF)	1,955	1,725
Highfield Level 2 Award in Food Safety for Catering (RQF)	0	1,530
QA Lefel 3 Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	1,290	1,470
Entry Level Certificate in ESOL International Speaking and Listening (Entry 3) (GESE Grade 5) (B1.1)	965	940
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	920	900
City & Guilds Level 3 Award in the Requirements for Electrical Installations BS767:2018	415	775
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol	750	710
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol	740	695
City & Guilds Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) ar gyfer Cymru a Gogledd Cymru	405	550
RSPH Level 2 Award in Food Safety and Hygiene	520	495

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 5 yn arddangos y deng cymhwyster brig â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn y chwarter diweddaraf o gymharu â nifer y tystysgrifau ar gyfer yr un cymwysterau yn ystod yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y deng cymhwyster brig yn cyfrif am 9,785 o dystysgrifau, sef 21.7% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch1 2020. O'r deng cymhwyster brig hyn, o gymharu â'r un chwarter y llynedd, Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds yn y Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol BS767:2018 a welodd y cynnydd cyfraneddol mwyaf (87.0%) a Dyfarniad Lefel 3 Highfield mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF) a welodd y gostyngiad cyfraneddol mwyaf (11.9%). Mae Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Diogelwch Bwyd ar gyfer Arlwygo (RQF) yn gymhwyster newydd a oedd ar gael yn gyntaf o fis Awst 2019, ac felly ni ddyfarnwyd unrhyw dystysgrifau yn Ch1 2019 ac ni ellir gwneud cymhariaeth chwarterol.

Tabl 6: Y 10 cymhwyster brig â'r nifer uchaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn y 12 mis diwethaf

Cymhwyster	Ebrill 2018 i	Ebrill 2019 i
	Mawrth 2019	Mawrth 2020
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru)	26,960	27,125
CBAC Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	25,950	26,415
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	12,045	11,660
CBAC Bagloriaeth Cymru Uwch	10,185	9,945
Highfield Dyfarniad Lefel 3 Cymorth Cyntaf ar frys yn y Gwaithle (RQF)	6,685	7,095
QA Lefel 3 Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	5,225	6,030
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	5,865	5,125
Highfield Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwygo (RQF)	8,395	4,785
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol	4,145	4,620
LIBF Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd	4,030	4,415

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Dengys Tabl 6 y deng cymhwyster brig â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â nifer y tystysgrifau ar gyfer yr un cymwysterau yn y 12 mis blaenorol. Roedd y deng cymhwyster hyn yn cyfrif am 28.7% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020.

Mae cymwysterau sy'n rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru yn cyfrif am y pedwar cymhwyster brig a ddyfarnwyd dros y 12 mis diwethaf, gyda Thystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen CBAC (Bagloriaeth Cymru) ar y brig gyda 27,125 o dystysgrifau. 2017 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd y cymhwyster hwn dystysgrifau, ynghyd â Bagloriaeth Cymru Genedlaethol/Sylfaen CBAC. Ceir rhagor o wybodaeth am y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru, a sut y maen nhw'n effeithio ar yr ystadegau hyn, yn yr adran [dylanwadau allanol](#) yn y nodiadau cefndir.

Ar wahân i gymwysterau Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau, y cymwysterau a ddyfarnwyd fwyaf oedd Dyfarniad Lefel 3 Highfield mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF) a Dyfarniad Lefel 3 QA mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF). Gwelodd Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwygo (RQF) ostyngiad amlwg sef 43.0% mewn tystysgrifau blynyddol, sy'n debygol o fod oherwydd cyflwyno'r Dyfarniad Lefel 2 Highfield mwy newydd mewn Diogelwch Bwyd ar gyfer Arlwygo (RQF) sy'n ymddangos yn nhabl 5.

RHESTR TERMAU

Cofrestr Ofqual

Mae'r Gofrestr o Gymwysterau a Reoleiddir⁶ yn cynnwys manylion y cymwysterau a'r sefydliadau dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual a CCEA Regulation.

Corff dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, sy'n nodi ac yn monitro asesiadau ac sy'n cyhoeddi dyfarniadau i ddysgwyr, gan gydnabod yn ffurfiol y canlyniadau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a/neu alluoedd), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU, caiff y rhain eu galw'n Sefydliadau Dyfarnu neu'n Fyrddau Arholi.

Cydnabyddiaeth corff dyfarnu

Er mwyn cynnig cymwysterau a reoleiddir yng Nghymru, rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Mae angen i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n meini prawf cydnabod ac ymgeisio am gydnabyddiaeth.

Cyffredinol eraill

Cymwysterau sy'n asesu maes pwnc penodol, fel cerddoriaeth neu gelf, heblaw TGAU, Safon UG a Safon Uwch. Nid yw'r cymwysterau hyn yn uniongyrchol berthynol i waith ond fe allent gefnogi datblygiad gyrfa. Yn aml cânt eu strwythuro mewn perthynas ag arholiadau sy'n cael eu graddio. Mae'r categori hefyd yn cynnwys cymwysterau wedi'u categoreiddio'n dystysgrifau lefel 1/2.

Cymeradwyo cymwysterau/meini prawf cymeradwyo/cymwysterau cymeradwy

Pan restrir cymhwyster ar y Rhestr Cymwysterau â Blaenoriaeth, rydym yn cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar ei gyfer. Cymeradwyo yw ein proses ar gyfer cymeradwyo cymwysterau felly mewn perthynas â'r meini prawf cymeradwyo. Efallai na fydd cymwysterau cymeradwy yn cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau eraill yng Nghymru ac fe'u cynllunnir fel arfer i fodloni anghenion penodol dysgwyr yng Nghymru.

Cymhwyster Cyffredinol

Yn disgrifio cymwysterau a safir yn nodweddiadol gan ddysgwyr mewn ysgol neu goleg yn rhan o'u haddysg statudol neu bellach. Mae hyn yn cynnwys TGAU, Safon UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru a chymwysterau eraill sy'n rhannu rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i TGAU a Safon Uwch. CBAC yw prif ddarparwr y

⁶<https://register.ofqual.gov.uk/>.

cymwysterau hyn yng Nghymru, er bod rhai hefyd yn cael eu cynnig gan gyrff dyfarnu eraill.

Cymhwyster Galwedigaethol (VQ)

Cymwysterau a ddyfarnir ac a ardystir gan gorff dyfarnu, a safir gan ddysgwyr o oed 14 ymlaen, ac sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n berthynol yn benodol i fyd gwaith. Mae'r cymwysterau hyn yn is-gyfres o'r cymwysterau sy'n cael eu cynnwys yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol

Cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd ac sy'n berthynol i waith, sy'n cwmpasu ystod eang o alwedigaethau a sectorau diwydiant ac sy'n cael eu cyflenwi mewn safle gweithle.

Cymwysterau a reoleiddir

Pob cymhwyster heblaw gradd (boed yn gymhwyster cymeradwy, dynodedig neu arall a reoleiddir) sy'n cael ei gynnig i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (heblaw naill ai bod corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth o ran y cymhwyster hwnnw, neu fod corff dyfarnu wedi hepgor y cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).

Cymwysterau Dynodedig

Cymwysterau a reoleiddir sydd wedi'u dynodi gan Cymwysterau Cymru yn rhai cymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffinnir o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Ystyriwn nifer o faterion wrth bennu a ddylid dynodi cymwysterau.

Cymwysterau eraill a reoleiddir

Y cymwysterau hynny a ddyfarnir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, sydd heb eu dynodi na'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ac nad yw cyrff dyfarnu wedi'u hildio na'u hepgor o gwmpas eu cydnabyddiaeth.

Cymwysterau sy'n berthynol i alwedigaeth

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd, perthynol i waith, sydd wedi'u cynllunio i ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud swydd i fyfyrwyr. Maent yn berthynol i gyflogaeth ond, yn wahanol i NVQ, nid ydynt o reidrwydd yn mynnu profiad neu asesiad yn y gweithle.

Cymwysterau yng Nghymru (QiW)

Cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n darparu ffynhonnell o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfarnir yng Nghymru⁷.

Chwarter

Yn cyfeirio at chwarterau calendr. Mae Chwarter 1 (Ch1) yn cyfeirio at fis Ionawr – Mawrth, chwarter 2 (Ch2) at fis Ebrill – Mehefin, chwarter 3 (Ch3) at fis Gorffennaf – Medi, a chwarter 4 (Ch4) at fis Hydref – Rhagfyr.

Dyddiad diwedd ardystio

Ni cheir dyfarnu cymhwyster i ddysgwyr, yn gymhwyster cymeradwy neu ddynodedig, ar ôl y dyddiad hwn.

Ildio Cydnabyddiaeth

Gall cydnabyddiaeth ddod i ben lle bydd corff dyfarnu'n penderfynu ildio naill ai cydnabyddiaeth rannol neu lawn. Efallai bydd cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn ildio rhan o'i gydnabyddiaeth drwy hysbysu Cymwysterau Cymru am gymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, yr hoffent eu cynnig yn gymwysterau heb eu rheoleiddio. Mewn achosion felly, ni all y cymwysterau heb eu rheoleiddio gynnwys logo Cymwysterau Cymru ar dystysgrifau a gyhoeddir i ddysgwyr.

Lefel Cymhwyster

Y lefel cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei chynrychioli fel y'i diffinnir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW). Mae'r Fframwaith hwn wedi'i alinio â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (EQF). Golyga hyn y gellir cymharu lefel cymhwyster a enillir yng Nghymru â lefel yn yr EQF. Mae hyn yn helpu pobl a sefydliadau i drosi cyflawniadau rhwng gwledydd a gweithio ledled yr UE.

Maes Pwnc Sector (MPS)

Meysydd pwnc sector yw'r gyfres o gategoriâu sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddsbarthu cymwysterau.

Maes Pwnc Is-sector (categori Pwnc Sector yn flaenorol)

Meysydd is-sector yw'r ail haen o gategoriâu sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddsbarthu cymwysterau.

Math o Gymhwyster

Mae mathau o gymhwyster yn cyfeirio at grwpiau o gymwysterau a ddatblygwyd i fodloni gofynion cynllun cyffredin. Efallai na fydd y gofynion cynllun ar gyfer rhai mathau o gymhwyster yn effeithiol rhagor, fel ar gyfer cymwysterau QCF (a gynlluniwyd i fodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau).

⁷<https://www.qiw.wales/?lang=cy>.

Tystysgrif/Ardystio

Cydnabyddiaeth ffurfiol o gyflawniad myfyriwr. Bydd hyn yn unrhyw ddyfarniad sydd heb gael gradd U, absennol, neu X (methu).

Y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF)

Fframwaith, a ddaeth i ben erbyn hyn, ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys unedau a chymwysterau mewn tri maint. Dyfarniadau (1-12 credyd), tystysgrifau (13-36 credyd) a diplomâu (37 neu ragor o greddyau).

NODIADAU CEFNDIR

Statws

Ar 21 Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru ymhlith y cyrff sydd yng nghwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Rydym wedi datblygu ein prosesau i sicrhau ein bod yn llwyr fodloni ein rhwymedigaethau yn gynhyrchwr ystadegau swyddogol, gan ganiatáu i'r datganiad ystadegol hwn gael ei gyhoeddi'n ffurfiol yn ystadegyn swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol neu arall yn Chwarter 4 2019 (Hydref- Rhagfyr 2019) wedi'i gyflwyno i Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu. Dim ond i ddysgwyr a gafodd eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfannau yng Nghymru y mae'r tystysgrifau, ni waeth y math o ganolfan. Nid yw'n cynnwys Dyfarniadau Uwch Estynedig, cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Prosiect a Phrif Ddysgu. Mae nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau⁸.

Cyn Chwarter 4 2017, roedd data Cymru ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill yn cael ei gasglu a'i adrodd gan Ofqual. Rhwng chwarter 4 2017 a chwarter 4 2018 (cynhwysol), Ofqual a oedd yn casglu data Cymru ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill ac yn ei ddarparu i Cymwysterau Cymru er mwyn cynhyrchu'r adroddiad chwarterol hwn. O Chwarter 1 2019 ymlaen, mae'r data hwn yn cael ei gasglu a'i adrodd gan Cymwysterau Cymru. Ym mis Ebrill 2019, hysbysodd Ofqual y cyrff dyfarnu am ei fwriad i gasglu data tystysgrifau chwarterol galwedigaethol ar gyfer holl ranbarthau'r DU, ac felly bydd yn parhau i gasglu data cymwysterau galwedigaethol Cymru at ei ddibenion mewnol ei hun⁹.

Cynhaliodd Cymwysterau Cymru ac Ofqual gasgliadau data galwedigaethol ar yr un pryd ar gyfer chwarter 4 2018 a chwarter 1 2019. Diben hyn oedd darparu cyfnod pontio pan allem brofi ein systemau casglu data a sicrhau ansawdd y data a gasglwyd gennym drwy ei gymharu â'r data a gasglwyd gan Ofqual. Defnyddiwyd dadansoddiad o unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau gasgliad i hysbysu ymgysylltiad â chyrrff dyfarnu i sicrhau a gwella ansawdd y data a gyhoeddwyd yn yr adroddiad

⁸<https://www.jcq.org.uk/>

⁹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/797024/RO65.2019_international_certificates_and_qualifications.pdf

hwn. Mae rhai cyrff dyfarnu wedi gwneud newidiadau i'r data galwedigaethol a gyflwynant o ganlyniad i'r gwaith hwn. Nid yw'n sicr a fydd cyrff dyfarnu yn ailadrodd y newidiadau hyn yn eu cyflwyniad data i Ofqual; felly, nid ydym mewn sefyllfa i bennu i ba raddau y mae casglu'r data i'n hunain wedi effeithio ar y niferoedd tystysgrifau a adroddwyd.

Disgwylir gwahaniaethau rhwng y cyfansymiau tystysgrifau a gasglwn ni a'r hyn y mae Ofqual yn ei gasglu gan gyrff dyfarnu, oherwydd mân wahaniaethau yng nghwmpas pob casgliad. Mae is-gyfras fechan o gymwysterau eraill a reoleiddir sy'n rhai Cymru yn unig nad ydynt yn ymddangos ar gofrestr Ofqual nac ar QiW a buasent wedi'u colli o gasgliadau data galwedigaethol hanesyddol Ofqual ar gyfer Cymru. Ni fydd data galwedigaethol Cymru y byddwn ni'n ei gasglu yn cynnwys rhagor gymwysterau a ildwyd o gwmpas ein cydnabyddiaeth ond fe'u rhestrir o hyd ar gofrestr Ofqual. Llunnir ein templedi cymhwyster gan ddefnyddio QiW a'r rhestr o gymwysterau eraill a reoleiddir a byddant felly'n cwmpasu'n llwyr y maes cymwysterau galwedigaethol ac eraill a reoleiddir yng Nghymru.

Mae gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig a gynigir yng Nghymru ar gael ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)¹⁰.

Methodoleg

Rydym wedi datblygu ein dull ein hunain ar gyfer cynhyrchu ac adrodd yr ystadegau hyn, sydd ychydig yn wahanol i'r dull a ddefnyddir gan Ofqual wrth gynhyrchu ystadegau hanesyddol i Gymru. Mae hyn am fod ein dull rheoleiddio yn wahanol i Ofqual: mae Ofqual yn gofyn i gyrff dyfarnu optio cymwysterau i mewn i'w rheoleiddio, a ninnau'n mynnu bod cyrff dyfarnu'n optio allan gymwysterau nad ydynt yn dymuno eu rheoleiddio. Efallai bod y data hanesyddol a adroddir yn y datganiad hwn yn cynnwys tystysgrifau ar gyfer cymwysterau na wnaethom eu rheoleiddio, am fod rhai o'r cymwysterau a restrir ar gofrestr Ofqual yn debygol o fod wedi'u hildio ar gyfer rheoleiddio yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Hefyd, gall fod nifer fechan o gymwysterau Cymru yn unig heb gyfrif amdanynt mewn data hanesyddol am na fuont yn gymwys am gyllid cyhoeddus (h.y. wedi'u rhestru ar QiW).

Mae nodweddion cymhwyster sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, fel maes sector pwnc (MSP) a lefel, yn seiliedig ar gofrestr Ofqual a chronfa ddata QiW. Ar gyfer chwarterau hyd at a chan gynnwys Ch4 2018, roedd templed casglu data Ofqual yn caniatáu i gyrff dyfarnu gyflwyno data ar gyfer yr un cymhwyster yn erbyn

¹⁰<https://www.qiw.wales/?lang=cy>

rhif QiW (dynodwr unigryw ar gyfer cymwysterau yng nghronfa ddata QiW), QAN (dynodwr unigryw ar gyfer cymwysterau ar gofrestr Ofqual) neu gyfran yn erbyn y ddau ar gyfer Cymru. Lle bu cyrff dyfarnu'n cyflwyno data i Ofqual gyda rhif QiW, cymerwyd y nodweddion cymhwyster o gronfa ddata QiW, a lle mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data gan ddefnyddio QAN, cymerwyd nodweddion cymhwyster o gofrestr Ofqual.

Bydd fformat addasedig ein templedi casglu data yn caniatáu dim ond un cyflwyniad data fesul cymhwyster o Ch1 2019. Bydd hyn yn dileu risg cyrff dyfarnu yn cyfrif tystysgrifau ddwywaith drwy gyflwyno'r un dystysgrif yn wallus yn erbyn y rhif QiW a'r QAN. Am ein bod yn casglu data ar gyfer cymwysterau a restrir ar QiW yn unig neu ein rhestr o rai eraill wedi'u rheoleiddio, bydd yr holl nodweddion cymhwyster o Ch1 2019 ymlaen yn cael eu cymryd o'n cronfa ddata. Bydd nodweddion o gofrestr Ofqual yn cael eu defnyddio'n unig ar gyfer data hanesyddol ar gyfer cymwysterau heb eu rhestru ar ein cronfa ddata.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data hanesyddol ar gyfer y 5 mlynedd ddiwethaf. Lle mae cymwysterau'n fyw o hyd ar y cofrestri, bydd y data hanesyddol a gyhoeddwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos y nodweddion hyn fel y maent ar y diwrnod y cafodd yr adroddiad ei weithredu ar gyfer y chwarter diwethaf. Os nad yw'r cymhwyster yn fyw rhagor, y nodweddion diweddaraf a gofnodwyd ar gyfer y cymhwyster hwnnw ar y cofrestri fydd yn cael eu hadrodd. Mae hyn yn unol â methodoleg Ofqual.

Mathau a Lefelau Cymhwyster

Priodolir lefel i bob cymhwyster. Disgrifir lefelau yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru¹¹. Dengys Tabl 7 sut mae lefelau'n berthynol i'r mathau o gymwysterau galwedigaethol ac eraill ar gofrestr Ofqual a QiW. Mae mathau cymhwyster heb eu dyfarnu yng Nghymru yn y 12 mis i ddiwedd Ch1 2020 wedi'u cysgodu'n las yn y tabl.

¹¹<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/disgrifyddion-lefel.pdf>

Tabl 7: Mathau cymhwyster a lefelau cyfatebol

Math o gymhwyster	Lefelau cyfredol	Math o gymhwyster	Lefelau cyfredol
Sgiliau Sylfaenol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2	Sgiliau allweddol	Lefelau 1 i 4
AHGP ¹²	Lefelau 1 i 6	NVQ	Lefelau 1 i 5
Asesiad Pwynt Diwedd	Lefelau 2 i 7	Cymhwyster cyffredinol arall	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3
Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3	Cymhwyster sgiliau bywyd arall	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3
Sgiliau Hanfodol Cymru	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3	Cymhwyster galwedigaethol arall	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 4
Cymhwyster Mathemateg annibynnol	Lefelau 1, 2 a 3	Cymhwyster galwedigaethol	Lefelau 1 i 4
Sgiliau swyddogaethol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2	QCF ¹³	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Lefel Uwch	Lefelau 4 i 8	Cymhwyster perthynol i alwedigaeth	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
AHGC ¹⁴	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 5	Bagloriaeth Cymru ¹⁵	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3

¹² Mae AHGP yn sefyll am 'Addysg a hyfforddiant galwedigaethol parhaus' ac mae'n ddosbarthiad ar gyfer cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol i'r rheini dros 16 oed (gweler <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf>).

¹³ Ar 1 Hydref 2015, tynnodd Ofqual ofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) yn ôl. Fodd bynnag, am resymau gweinyddol, tan haf 2016, gallai sefydliadau dyfarnu ddefnyddio math QCF ar system Ofqual ar gyfer cymwysterau newydd pan nad oedd unrhyw fath arall yn briodol. Yn dilyn penderfyniad Ofqual, tynasom hefyd ofynion QCF yn ôl o 1 Rhagfyr 2015. Pan gyflwynwyd QiW ar 1 Ebrill 2016, ni ddosbarthwyd cymwysterau newydd yn rhai QCF rhagor.

¹⁴ Mae AHGC yn sefyll am 'addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol' ac mae'n ddosbarthiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cyflwyniadol sy'n addas i bob oedran a gallu (gweler <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf>).

¹⁵ Mae math 'Bagloriaeth Cymru' yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (ar bob lefel) a Bagloriaeth Cymru ar bob lefel (mae'r ail un yn mynnu bod dysgwyr yn cyflawni cymwysterau eraill ar lefelau penodedig yn ogystal â'r Dystysgrif Her Sgiliau berthnasol).

Dylanwadau allanol

Bagloriaeth Cymru

Yn dilyn yr 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru'¹⁶, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015. Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Fagloriaeth Cymru, cyhoeddodd bolisi o fabwysiadu cyffredinol. Golyga hyn fod Bagloriaeth Cymru ar gael i bob ysgol a Choleg AB ei chynnig, yn hytrach nag yn unig i'r rheini sydd wedi'u cymeradwyo i'w chynnig, a oedd yn wir gyda'r Fagloriaeth Cymru wreiddiol. Mae'r polisi¹⁷ hefyd yn gosod targedau i ysgolion a Cholegau AB gynyddu'n raddol y gyfran o fyfyrwyr sy'n cymryd Bagloriaeth Cymru, gyda'r nod y bydd y mwyafrif helaeth o ddysgwyr yng Nghymru erbyn 2019/20 yn ei chymryd yn rhan o'u rhaglen astudio. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae tystysgrifau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Ar gyfer y Fagloriaeth Cymru wreiddiol, gallai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol (ochr yn ochr â chymwysterau eraill) gyfrif tuag at y dyfarniad. Gallai fod gan ddysgwr nifer o gymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol wedi'u hardystio i gyfrif tuag at y dyfarniad. Nid yw cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol cyfredol yn cyfrif tuag at ddyfarnu'r Fagloriaeth Cymru newydd yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ar gyfer y Fagloriaeth Cymru Uwch. Fodd bynnag, gall y cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru newydd gyfrif tuag at y Fagloriaeth Cymru Sylfaen a Chenedlaethol Ôl-16. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gymariaethau dros amser yn y cyhoeddiad hwn.

Mesurau Perfformiad

Gallai newidiadau i fesurau perfformiad hefyd fod yn effeithio ar nifer y tystysgrifau mewn cymwysterau galwedigaethol ac eraill dros amser, yn enwedig ar Lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i ddarparu mwyafswm o 40% o'r pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy (Cyfnod Allweddol 4) ysgol Llywodraeth Cymru. Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid pellach i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â gwyddoniaeth gyda dim ond cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth yn cyfrif. Yn flaenorol, caniatwyd i gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol gyfrif¹⁸.

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2014) *Adolygiad o Gymwysterau i bobl ifanc 14-19* [ar-lein]. Ar gael o: <https://llyw.cymru/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2017) *Bagloriaeth Cymru ôl-16: cofnodi a mesur deilliannau* [ar-lein]. Ar gael o: <https://llyw.cymru/bagloriaeth-cymru-ol-16-cofnodi-mesur-deilliannau> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

¹⁸ Mae gwybodaeth bellach am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru ar gael yn: <https://digitalanddata.blog.gov.wales/2017/12/06/chief-statisticians-update-understanding-changes-to-education-data/> [Accessed 06 February 2020].

Cwmpas Daeryddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y tystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill yn ystod chwarter 4 (Hydref – Rhagfyr 2019) o ran canolfannau yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol ac eraill a gymerir y tu allan i Gymru, nac ychwaith dystysgrifau ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Dyfarniad Uwch Estynedig, Prosiect a Phrif Ddysgu.

Cyfyngiadau data

Er ein bod yn ceisio casglu tystysgrifau sy'n berthynol i ddysgwyr a aseswyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfan yng Nghymru, mae'n bosibl y gallai dysgwyr y tu allan i Gymru gael eu cynnwys yn y data y mae rhai cyrff dyfarnu'n ei gyflwyno. Un sefyllfa lle allai hyn godi yw dyfarnu tystysgrif i ddysgwr o bell (h.y. nid oes canolfan). Rydym wedi cyfarwyddo cyrff dyfarnu i ddefnyddio cyfeiriad y dysgwr yn absenoldeb canolfan, er nad yw'r wybodaeth hon bob amser yn cael ei chasglu oddi wrth ddysgwyr.

Mae Ofqual wedi casglu data hanesyddol ar gyfer Cymru ar ein rhan. Yn eu nodiadau cefndir, maent yn disgrifio cyfyngiadau'r data:

"Caiff data ei gasglu yn y man cynharaf ar gael, sef diwrnod cyntaf y cyfnod adrodd nesaf. Mae hyn yn lleihau'r amser rhwng y gweithgarwch ac adrodd am y gweithgarwch. Mae prif ffynhonnell y gwall posibl yn yr wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Ni all Ofqual sicrhau bod nifer y tystysgrifau a gyflwynir yn gywir a gall fod tuedd systematig pan anfonir yr wybodaeth, er disgwylir i sefydliadau dyfarnu ddarparu'r data cywir. Mae Ofqual yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio am faterion systematig. Anfonir data cryno wedyn yn ôl i'r sefydliadau dyfarnu i'w wirio a'i gadarnhau. Mae'r ffigurau a adroddir yn y datganiad hwn yn adlewyrchu'r tystysgrifau a gyhoeddwyd gan sefydliadau dyfarnu adeg casglu'r data."

Ar 04 Mai 2018 tynnodd Ofqual gydnabyddiaeth yn ôl o'r Corff Dyfarnu ar gyfer Vocational Achievement (AVA) Ltd (yn masnachu fel BAA). Trowch at y [dudalen hon](#) am ragor o fanylion. Yn rhan o'r ymchwiliad a ddaeth cyn y penderfyniad, canfuwyd y bu AVA yn darparu data tystysgrifau anghywir i Ofqual. Nid yw'n ymarferol cael data wedi'i gywiro gan AVA, ond gwyddys fod maint y cywiriadau yn fechan. Roedd gan AVA niferoedd tystysgrif isel iawn (tua 15 yn y 5 mlynedd ddiwethaf yn y data presennol) felly nid yw'r anghywirdebau hyn yn effeithio'n sylweddol ar y tueddiadau cyffredinol yn y data. Felly, rydym wedi adrodd y data AVA presennol fel y mae yn y datganiad ystadegol hwn.

Cymariaethau

Casglwyd y data hwn yn yr un ffordd y mae Ofqual wedi casglu data ar gyfer chwarterau blaenorol. Mae Ofqual yn llenwi eu ffurflenni casglu data ymlaen llaw â chymwysterau o'u cofrestr a'n cronfa ddata QiW; rydym wedi dilyn strategaeth debyg, gan lenwi templedi gan ddefnyddio ein cronfa ddata QiW a rhestr o gymwysterau eraill a reoleiddir sy'n cael ei chadw'n gyfoes gan gyrff dyfarnu. Ar gyfer y cyhoeddiad hwn, rydym wedi gwaredu cymwysterau gan gyrff dyfarnu nad ydym yn eu cydnabod o ddata hanesyddol. Gwnaethom hyn ar gyfer y 5 mlynedd ddiwethaf wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a thablau data cyfatebol. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ar ddechrau chwarter (e.e. 1 Ionawr) mae data ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw wedi'i waredu o'r chwarter hwnnw ymlaen. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ran o'r ffordd drwy chwarter, mae'r data ar gyfer y chwarter hwnnw wedi'i gynnwys lle bo ar gael, ac mae'r corff dyfarnu wedi'i waredu o'r data o'r chwarter canlynol ymlaen. Mewn nifer fechan o achosion, mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ac wedyn cael ei gydnabod eto'n ddiweddarach. Yn yr achosion hyn, mae data wedi'i hepgor dim ond pan na chafodd y corff dyfarnu ei gydnabod drwy gydol y chwarter.

Felly, efallai na fydd cyfansymiau chwarterau a blynyddoedd hanesyddol yr un fath â'r hyn a gyhoeddir gan Ofqual. Dengys y tabl isod yr effaith a gafodd hyn ar gyfansymiau ar gyfer pob chwarter:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Number of certificates removed	90	45	110	230	*	55	110	75	105	0
Percentage of total certificates	0.15%	0.05%	0.06%	0.07%	0.00%	0.05%	0.06%	0.03%	0.16%	0.00%

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Number of certificates removed	0	20	280	265	130	215	215	245	225	180
Percentage of total certificates	0.00%	0.01%	0.47%	0.31%	0.11%	0.09%	0.36%	0.45%	0.27%	0.08%

Yn achos dwy bartneriaeth o gyrff dyfarnu – CBAC-EDEXCEL a Pearson EDI – gwyddom na chafodd eu cydnabyddiaeth ei throsglwyddo draw i Cymwysterau Cymru yn y dechreuad ym mis Awst 2015. Ni ddyfarnodd CBAC-EDEXCEL unrhyw dystysgrifau ar ôl Ch3 2013, a gwelodd Pearson EDI ostyngiad mawr yn y dystysgrifau o Ch2 2015 ymlaen. O ystyried y tueddiadau a ddisgrifiwyd, mae data ar gyfer y partneriaethau hyn wedi'i gynnwys hyd at a chan gynnwys Ch3 2015 (h.y. nes sefydlu Cymwysterau Cymru) a'i hepgor ar ôl y pwynt hwn. Dengys y tabl isod y data ar gyfer y gyrff dyfarnu hyn – mae'r ffigurau a amlygwyd â chysgodi wedi'u gwaredu o'r data ar gyfer y datganiad hwn:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Pearson EDI Certificates	1210	1415	1835	1050	1385	1480	1745	1905	1205	1085
WJEC-EDEXCEL Certificates	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Pearson EDI Certificates	345	420	205	140	45	30	10	0	0	0
WJEC-EDEXCEL Certificates	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Sicrhau ansawdd

Am fod Cymwysterau Cymru bellach yn casglu'r data hwn ein hunain, rydym yn gyfrifol am sicrhau ei ansawdd. Trafodir manylion ynghylch y prosesau a ddilynwn i sicrhau ansawdd y data hwn yn ein dogfen Datganiad Interim ar Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol¹⁹. Bu data hanesyddol yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual, a gyflenwir fel yr eglurir yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyhoeddiadau Ystadegol²⁰ a gyhoeddwyd gan Ofqual i sicrhau cywirdeb y data ac i'w herio neu ei gwestiynu, os oes angen. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn nodiadau cefndir datganiad chwarterol cymwysterau galwedigaethol ac eraill Ofqual²¹.

Gellir oedi cyhoeddiad os ystyrir nad yw'r ystadegau'n addas at ddiben.

Diwygiadau

Ar ôl ei gyhoeddi, nid yw'r data ar nifer y tystysgrifau cymhwyster galwedigaethol fel arfer yn destun diwygio, er gall datganiadau dilynol gael eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

I warchod cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi deilliannau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 eu disodli â *. Gwneir hyn i sicrhau nad yw data yn datgelu ymgeisydd unigol. Caiff yr holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd eu talgrynnu. Yn y sylwadau a'r tablau, cânt eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae pob canran yn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac efallai felly na fyddant yn cyfateb i'r cyfanswm.

¹⁹<https://www.qualificationswales.org/media/3722/datganiad-interim-am-ansawdd-ystadegol-a-sicrhau-ansawdd-ffynonellau-data-gweinyddol.pdf>

²⁰<https://www.gov.uk/government/publications/ofquals-statistics-policies-and-procedures>

²¹<https://www.gov.uk/government/collections/statistics-vocational-qualifications>

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Croesawn adborth gan ddefnyddwyr er mwyn dod i ddeall yn well pwy yw ein defnyddwyr dros amser. Defnyddia Cymwysterau Cymru yr ystadegau hyn i hysbysu dealltwriaeth am batrymau ardystio, ac i helpu monitro cymwysterau galwedigaethol.

Ystadegau a chyhoeddiadau perthynol

Mae Ofqual yn cyhoeddi ystadegau ar gymwysterau galwedigaethol ar gyfer Lloegr²².

Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddir gan Gyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) Gogledd Iwerddon²³.

Ystadegau a gyhoeddir gan Awdurdod Cymwysterau yr Alban (SQA)²⁴.

Ystadegau a gyhoeddir gan Eurostat²⁵.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar [dudalen 11](#) i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru²⁶.

Mae cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)²⁷ yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys am gyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Medi 2020 (dros dro).

Adborth defnyddwyr

Croesawn unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn; gellir ei roi mewn e-bost i statistics@qualificationswales.org.

© (2020) *Rhoir caniatâd i atgynhyrchu ar yr amod y crybwyllir Cymwysterau Cymru yn ffynhonnell wreiddiol.*

²²<https://www.gov.uk/government/collections/statistics-vocational-qualifications>.

²³<https://ccea.org.uk/regulation/reports-statistics>

²⁴<https://www.sqa.org.uk/sqa/48269.8311.html>.

²⁵<https://ec.europa.eu/eurostat/web/education-and-training/overview>.

²⁶ <https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

²⁷<https://www.qiw.wales/?lang=cy>